Pwy Sydd Yma

Ar y creigiau glas mae'r gwylanod
Yn aros am y llanw mawr
Yn gwylio dros y dŵr mewn gobaith
Yn meddwl falle dyma'r awr
Ac ar y tir mawr y mae cyffro
Pobol yn rhuthro nôl a mhla'n
Ac ambell un yn stond a llonydd
Yn syllu am y ceffyl bla'n

Mae 'na batrwm yn y brethyn
Fu'r gwehyddion wrth eu gwaith
Mae 'na ystyr i fy mywyd
Mae 'na ddiben i fy nhaith
Mae gan ryw'n y map a'r cwmpawd
Rwyf yn barod am y dydd
Does dim mwy sy' angen arnaf
Ond fy ngobaith, ond fy ffydd.

Pwy sydd yma i mi ddilyn
Pwy a wel y ffordd yn glir
Pwy wnaiff ddarllen yr arwyddion
Ma' nhw yno'n ddigon clir.

Daw'r un freuddwyd i mi'n aml
Daw'r un teimlad i fy mron
Daw'r un syniad i fy meddwl
Mae'n fy nilyn fel can gron
S'gen i 'm syniad beth i ddisgwyl
S'gen i 'm syniad beth a ddaw
Ond mi wn y byddai'n barod
I'w adnabod pan y daw.

© Geraint Griffiths 2005